



Yn y rhifyn hwn o InTouch...

Y 10 camgymeriad
sy'n digwydd amlaf
yn adroddiadau'r
dirprwyon

Newidiadau i'r
gwasanaeth adrodd
ar-lein

Costau teithio
sefydlog

...a llawer mwy

Rolau a gwahaniaethau rhwng Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a'r Llys Gwarchod

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Y Llys Gwarchod

Yn ystod eich taith fel dirprwy bydd amseroedd pan fydd angen i chi siarad gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG) ac amseroedd eraill pan fyddwch angen cysylltu â'r Llys Gwarchod (CoP).

Rydych wedi dweud wrthym ei bod hi'n anodd gwybod ar brydiau pa sefydliad yr ydych ei angen. Yn yr erthygl yma byddwn yn esbonio pryd y bydd angen i chi gysylltu â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a phryd y bydd angen i chi wneud cais i'r Llys Gwarchod.

Beth all Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ei wneud i chi?

Byddwch yn cychwyn eich taith fel dirprwy pan fydd y Llys Gwarchod yn rhoi eich gorchymyn llys i chi. Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn ymdrin â'r mater wedi hynny ac yn eich goruchwylio drwy gydol eich dirprwyaeth i sicrhau fod popeth a wnewch yn cyfateb gyda'ch gorchymyn llys ac o'r budd gorau i'r unigolyn sydd o dan eich gofal.

Rydym yn cysylltu â chi gyda galwad ffôn cyflwyniadol ac yn aseinio rheolwr achos wedi'i enwi i chi. Maent yn gweitho i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a gallent eich helpu a'ch arwain drwy'r gwaith papur sy'n ofynnol gennych fel dirprwy. Gallent hefyd roi cyngor i chi am bethau fel talu ffioedd gofalu a gwneud rhoddion ar ran yr unigolyn. Bydd eich rheolwr achos yn adolygu eich adroddiadau, yn trefnu i ymwelwyr o'r Llys Gwarchod gwrdd â chi ac yn darparu cefnogaeth i chi dros y ffôn.

Drwy gydol eich dirprwyaeth byddwn yn casglu eich ffioedd ac yn archwilio unrhyw bryderon os na chredwn eich bod yn gweithredu yn y ffordd orau er budd yr unigolyn.

Dylech gysylltu â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus os:

- oes gennych bryderon am yr unigolyn
- oes gennych bryderon am y ddirprwyaeth
- ydych angen cymorth gyda'ch adroddiad

- nad ydych yn siŵr a yw penderfyniad o'r budd gorau i'r unigolyn
- nad ydych yn siŵr os yw rhywbeth yr ydych eisiau ei wneud wedi'i awdurdodi gan eich gorchymyn llys
- ydych angen diweddarau eich manylion cysylltu neu fanylion cysylltu'r unigolyn
- yw sefyllfa ariannol yr unigolyn yn newid yn sylweddol
- yw'r unigolyn yn marw neu'n adennill galluedd

Ni allwn roi caniatâd i chi i:

- wneud rhywbeth nad yw wedi'i awdurdodi gan eich gorchymyn llys
- wneud rhywbeth fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar sefyllfa ariannol yr unigolyn
- adael i unrhyw un, heblaw'r unigolyn, elwa o'r ddirprwyaeth

Os ydych angen cyngor ariannol neu gyfreithiol, nid ydym yn gallu darparu hynny. I gael cyngor fel yma, dylech siarad gyda chyfreithiwr neu gyfrifydd.

Os ydych yn ansicr pa sefydliad i gysylltu ag o, ffoniwch eich rheolwr achos os gwelwch yn dda, a byddent yn hapus i helpu.

Pryd ddylech chi gysylltu â'r Llys Gwarchod?

Fel rheol, mae angen i chi ddychwelyd i'r Llys Gwarchod os ydych eisiau gwneud newidiadau i'ch gorchymyn llys.

Pan fyddwch yn derbyn eich gorchymyn llys i ddechrau, darllenwch drwyddo i sicrhau nad oes unrhyw wallau megis camsillafu enwau, a dewch i ddeall y mathau o benderfyniadau y mae gennych ganiatâd i'w gwneud. Os nad ydych yn credu ei fod yn gywir, dywedwch wrth y Llys Gwarchod o fewn 21 diwrnod.

Llenwch ffurflen COP9 y gallwch ei chael o [gov.uk/become-deputy/when-youre-appointed](https://www.gov.uk/become-deputy/when-youre-appointed)

Os na ddywedwch wrth y llys am unrhyw wallau o fewn 21 diwrnod efallai y bydd raid i chi dalu am gais arall i gywiro'r gwall.

Mae angen i chi wneud cais i'r Llys Gwarchod i wneud newidadau i'ch gorchymyn llys yn dilyn y cyfnod cychwynnol yma, gan gynnwys ar gyfer:

- gwneud penderfyniadau nad ydynt yn y gorchymyn llys gwreiddiol
- adnewyddu eich dirprwyaeth (os oes ganddo ddyddiad terfynu)

- newid maint y swm sydd wedi'i ddiogelu gan eich bond sicrhad
- gwneud rhodd sydd y tu allan i'r gorchymyn llys
- wneud benthyciad o gyllid yr unigolyn
- gwerthu tŷ'r unigolyn, ond mae'r gorchymyn llys yn dweud na chewch chi wneud hynny
- penderfynu lle dylai'r unigolyn fyw - os oes gennych ddirprwyaeth iechyd a lles ac rydych yn methu cytuno gyda'r teulu, pobl broffesiynol ym maes iechyd neu staff gofalu, gofynnwch am gyngor gan y Llys Gwarchod

Dylech gysylltu â'r Llys Gwarchod hefyd:

- i gael copiâu swyddogol ychwanegol o'ch gorchymyn llys
- pan fydd galluedd meddwl yr unigolyn wedi'i adfer
- os byddwch yn penderfynu rhoi'r gorau iddi neu'n ychwanegu rhywun arall at y ddirprwyaeth

Cofiwch na all y Llys Gwarchod roi cyngor cyffredinol i chi - dim ond ystyried gwybodaeth pan fydd wedi'i ysgrifennu mewn cais. Os ydych eisiau gwneud rhywbeth nad yw'n cael ei ganiatáu yn eich gorchymyn llys, allwch chi ond cael cymeradwyaeth dryw gyflwyno cais i'r llys.

Sut i wneud cais i'r Llys Gwarchod

Mae'n costio £400 i wneud cais i'r llys (o gyllidebau'r unigolyn) ac efallai y bydd costau ychwanegol os oes gwrandawriad llys. Gallwch wneud cais i dalu llai neu i beidio talu ffi os oes gan yr unigolyn incwm isel.

Bydd angen i chi lenwi ffurflen gais (COP1) a datganiad tyst (COP24) gyda manylion ariannau cyfredol yr unigolyn a pham yr ydych yn gwneud cais. Yna byddwch yn anfon y ffurflenni gyda siec am £400, yn daladwy i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, wedi'i dalu o gyllidebau'r unigolyn.

Y Llys Gwarchod

Ffôn: **0300 456 4600**

Ebost: courtprotectionenquiries@hmcts.gsi.gov.uk

Llun – Gwener 9am i 5pm

Costau teithio sefydlog - esboniad o'r cyfarwyddyd ymarfer

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau'n ddiweddar i ddirprwyon trydydd sector ac awdurdod cyhoeddus ynglŷn â sut i ddefnyddio darpariaeth newydd - paragraff 21 - yn y cyfarwyddyd ymarfer sydd wedi'i ddiweddarau gan y Llys Gwarchod (CoP) ar gostau sefydlog - Cyfarwyddyd Ymarfer B i Adran 19 rheolau'r Llys Gwarchod.

Mae paragraff 21 yn caniatáu i ddirprwyon trydydd sector ac awdurdodau cyhoeddus eraill hawlio swm sefydlog am gostau teithio.

Gyda'r arweiniad rydym yn ceisio esbonio beth sy'n cyfrif fel hawliad rhesymol o dan ddarpariaeth newydd y llys, pryd y byddai'r rheol yma'n berthnasol, sut i gyfrifo costau teithio a sut y bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn goruchwyllo hawliadau am gostau o dan y paragraff diwygiedig yma.

Nid yw'r cyfarwyddyd ymarfer yn berthnasol i ddirprwyon lleyg, felly os ydych yn ddirpwy lleyg, ni allwch hawlio costau sefydlog am amser teithio.

Nid yw'r paragraff a'r arweiniad newydd yn berthnasol i ddirprwyon cyfreithwyr chwaith, a dylent hwythau barhau i hawlio eu costau yn yr un ffordd.

Rydym yn rhoi manylion rhai o'r uchafbwyntiadau o'r nodyn ymarfer isod.

Faint allwn i ei hawlio?

Mae'r cyfarwyddyd ymarfer yn nodi bod modd i ddirprwyon awdurdod cyhoeddus a dirprwyon trydydd sector eraill hawlio costau teithio ar gyfradd o £40 am bob awr a dreulir yn teithio, faint bynnag yw'r tâl neu safle'r unigolyn sy'n teithio yn y sefydliad.

Pryd ddylwn i hawlio treuliau?

Dim ond am y teithio a wnânt er mwyn gweithredu eu dyletswyddau y gall dirprwyon hawlio costau. Rydym o'r farn bod unrhyw hawliau am gostau nad ydynt yn berthnasol i'r ddirprwyaeth yn afresymol - er enghraifft, teithiau i wneud adolygiadau gofal neu unrhyw swyddodaethau statudol eraill.

Rydym yn disgwyl i'r mwyafrif o hawliau fod yn gysylltiedig ag ymweliadau â'r cleient neu eu heiddo. Fodd bynnag, gall dirprwyon hawlio hefyd os ydynt yn gorfod teithio am resymau eraill sy'n ymwneud â'r ddirprwyaeth - er enghraifft, i fynd i gyfarfod neu i fynd gyda'u cleient i apwyntiad gyda banc. Pan fydd y dirprwy'n hawlio costau teithio am fwy nag un ymweliad â'r cleient bob blwyddyn, mae angen iddynt esbonio pam yn eu hadroddiad.

Sut ydw i'n cyfrifo costau teithio?

Dylai dirprwyon gyfrifo'r amser teithio o'u lleoliad gwaith i leoliad y cyfarfod a'r daith yn ôl. Os yw'r amser teithio'n fyrrach - er enghraifft, am eu bod yn teithio o adref - yna dylent hawlio'r swm isaf. Os yw'r amser teithio'n hirach oherwydd y teithio o adref, yna dylai dirprwyon dynnu'r amser teithio arferol o'r-cartref-i'r-swyddfa allan o'r hawliad.

I osgoi hawlio am unedau bach, rydym yn awgrymu bod dirprwyon yn talgrynu'r amser i fyny neu i lawr i'r 15 munud agosaf y maent yn eu treulio'n teithio.

I ddarllen yr arweiniad yn llawn ewch i gov.uk/opg



Newidiadau i adrodd ar-lein

Yn gynharach eleni gwnaethom newidiadau i'r gwasanaeth adrodd ar-lein i'w gwneud h'n haws i ddirprwyon ei ddefnyddio.

Mae mwy na 2,700 o ddirprwyon lleyg wedi cyflwyno eu hadroddiad ar-lein ers i'r gwasanaeth lansio ym mis Mehefin 2016. Mae'r gwasanaeth wedi'i lunio o amgylch adborth gan ddefnyddwyr, ac rydym bob amser yn gwneud gwelliannau i sicrhau bod y system yn eich cefnogi yn eich dirprwyaeth.

Yn gynharach eleni, gwnaethom ychydig o newidiadau fel bod y gwasanaeth yn haws ei ddefnyddio, yn enwedig i ddirprwyon sydd heb roi adroddiad ar-lein o'r blaen. Rydym wedi newid cynllun yr adroddiad fel bod un cwestiwn yn unig i bob tudalen, sydd yr un fath â'r gwasanaethau eraill ar GOV.UK. Mae hyn yn helpu dirprwyon i ganolbwyntio ar gwestiwn penodol a'i ateb, gan sicrhau nad oes unrhyw beth yn cael ei golli.

Rydym hefyd wedi newid y ffordd y mae'r gwasanaeth yn cadw gwybodaeth. Yn y gorffennol roedd y system yn cadw'r wybodaeth yn awtomatig wrth i'r adroddiad symud ymlaen. Roedd hyn yn drysu rhai dirprwyon am na allent wirio a oedd eu gwybodaeth wedi cael ei chadw. Nawr, mae angen i ddirprwyon glicio 'cadw' unwaith maent wedi cwblhau ateb i fynd ymlaen at y cwestiwn nesaf.

Cam nesaf y datblygiad yw creu opsiwn i lwytho dogfennau, megis datganiadau banc, i gefnogi adroddiadau a gwblhawyd. Dylai hyn gael ei ychwanegu at y gwasanaeth erbyn Awst 2017.

Os hoffech gwblhau eich adroddiad ar-lein, ewch i complete-deputy-report.service.gov.uk

I greu cyfrif byddwch angen eich rhif achos (rhif cyfeirio Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar y llythyrau a dderbyniwch) a'ch cyfeiriad ebost.


Dirprwyon awdurdod cyhoeddus

Mae'r gwasanaeth adrodd ar-lein ar gyfer dirprwyon awdurdod cyhoeddus yn fyw erbyn hyn. Hyd yn hyn mae 33 o awdurdodau wedi cofrestru i ddefnyddio'r gwasanaeth. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn defnyddio'r gwasanaeth i reoli adroddiadau eich cleientiaid, cysylltwch â thîm

dirprwyon yr awdurdod cyhoeddus ar opg.publicauthorityteam@publicguardian.gsi.gov.uk neu **0115 9342817**. Bydd y tîm yn creu cyfrif ac yn llwytho eich achosion i'r gwasanaeth i chi.

Dirprwyon proffesiynol

Nid yw'r gwasanaeth adrodd ar-lein ar gael i ddirprwyon proffesiynol ar hyn o bryd. Ond, rydym wedi dechrau ymchwilio sut i ymestyn y gwasanaeth i'r grŵp yma a gobeithiwn y bydd yn barod erbyn gwanwyn 2018.



Diwrnod ym mywyd rheolwr achos gweithredol

Mae Elizabeth yn rheolwr achos gweithredol ac mae hi'n delio'n bennaf gydag achosion lle mae angen cefnogaeth ychwanegol. Mae hi'n gweithio mewn swyddfa, fel ei chyd-reolwr achos, a gall dreulio llawer o'r diwrnod ar y ffôn yn cynnig cefnogaeth a chynghor i ddirprwyon.

Meddai Elizabeth: "Rwy'n fwy tebygol o ymdrin ag achos os oes problem. Efallai nad yw dirprwy wedi deall eu gorchymyn llys ac efallai eu bod wedi gwneud rhywbeth na ddylent. Fy ngwaith i yw ceisio dadwneud y gwallau hynny a'u hatal rhag digwydd eto."

Mae rheolwr achos cyffredinol yn tywys dirprwy drwy'r daith gyfan, o'r broses gyflwyniadol, yr holl ffordd hyd ddiwedd y ddirprwyaeth. Ond, fel rheolwr achos gweithredol, mae Elizabeth yn camu i mewn pan godir pryderon neu os bydd rhywbeth yn edrych yn anarferol.

Gallai rhywbeth ar adroddiad dirprwy edrych yn rhyfedd, neu beidio gwneud synnwyr. Gall Elizabeth sylwi ar hyn a gofyn am fwy o wybodaeth megis derbyniadau, anfonebau a datganiadau banc i geisio canfod gwall y dirprwy. Os yw'n ymddangos nad yw'r dirprwyon yn gweithredu er budd gorau'r unigolion y maent yn gofalu amdanynt, neu os ydynt wedi torri eu gorchymyn llys, bydd hithau'n canfod pam ac yn esbonio i'r dirprwy pa gamau i'w cymryd nesaf.

Ychwanegodd Elizabeth: "Fel arfer, mae'n gamgymeriad dilys, efallai nad yw'r dirprwy wedi deall



"Dewch atom i siarad os byddwch ein hangen, dewch atom i siarad os byddwch yn teimlo'n unig neu wedi eich llethu, a dywedwch wrthym os ydych yn meddwl eich bod wedi gwneud camgymeriad."

yn iawn neu efallai nad yw wedi cael arweiniad digonol. Os nad yw wedi digwydd ar bwmpas, byddaf yn ceisio addysgu'r dirprwyon a gweithio gyda nhw i ddadwneud unrhyw gamgymeriadau."

Mae pob diwrnod gwaith yn wahanol i Elizabeth, yn dibynnu ar y galwadau ffôn y mae hi'n eu derbyn.

"Gallwch gael galwadau ffôn gan gartrefi nyrsio yn lleisio pryder nad oes gan bobl ddigon o arian gwario, neu gan ddirprwy sy'n cael trafferthion ac sydd angen rhywfaint o gefnogaeth - byddwn yn ymdrin ag unrhyw beth sy'n codi o'r galwadau ffôn yma."

Dydy hi ddim yn cwrdd â dirprwyon wyneb yn wyneb, ond mae hi'n ceisio sicrhau ei bod yn defnyddio'r ffôn fel y pwynt cyswllt cyntaf.

"Yn aml iawn mae'n llawer haws cywiro camgymeriadau drwy siarad gyda rhywun. Rwy'n gwybod bod dirprwy'n mynd i boeni os yw'n derbyn llythyr gyda stamp swyddogol Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus arno, felly byddwn fel arfer yn ceisio ffonio pobl yn gyntaf i weld a allwn ni ddatrys y mater.

"Gallwn anfon ymwelwyr allan i gwrdd â phobl wyneb yn wyneb hefyd os ydym yn credu y byddai hynny'n helpu. I Elizabeth, rhan bwysicaf ei swydd yw diogelu oedolion bregus - a gallai hynny gynnwys cefnogi dirprwy i ddysgu am fudd-daliadau y mae'n cael trafferth eu sicrhau i'r unigolyn y mae'n gofalu amdano.

"Mae'n bwysig peidio gwthio'r ffaith fod y dirprwy wedi gwneud

pethau'n anghywir, rhan fawr o'm swydd yw cefnogi'r dirprwy i geisio cael popeth i'r unigolyn y mae ganddo/ganddi'r hawl i'w dderbyn - er mwyn ceisio sicrhau bod sefyllfa ariannol yr unigolyn mor dda ag y gall fod o ystyried y sefyllfa.

"Wrth gwrs, y prif beth yw amddiffyn yr unigolyn ond pan fyddwch yn sicr eich bod wedi llwyddo i wneud hynny, mae'n wobrwyl iawn rhoi ychydig o gefnogaeth i ddirprwyon sydd mewn sefyllfa anodd eu hunain yn aml iawn."

Un o'r pethau ddylai gysuro dirprwyon yw'r ffaith fod Elizatbeth a'i chydweithwr, oherwydd nifer y dirprwyon y maen nhw'n siarad â nhw, yn debygol iawn o fod wedi siarad â phobl eraill mewn sefyllfaoedd tebyg o'r blaen. Os nad yw rheolwyr achos yn gallu trwsio problem gallent eich helpu i fynd i'r cyfeiriad cywir ac o leiaf roi ysgwydd a chlust i chi.

"Dewch atom i siarad os byddwch

ein hangen, dewch atom i siarad os byddwch yn teimlo'n unig neu wedi eich llethu, a dywedwch wrthym os ydych yn meddwl eich bod wedi gwneud camgymeriad."

Mae hi'n ychwanegu: "Rydym yn gwybod bod y mwyafrif o'n dirprwyon yn bobl gyda theulu ar ddiwedd y diwrnod, ac maent mewn sefyllfa anodd - byddwn yn ceisio cydymdeimlo bob amser."

Ar flaen y gad

Roedd anafiadau caffaeledig i'r ymennydd (ABI) yn cyfrif am 348,934 o'r holl dderbyniadau yn ysbytai'r Derynas Unedig yn 2013/14. Mae'r ffigur hwnnw'n gyfatebol â bron i 956 o dderbyniadau bob dydd - neu un bob 90 eiliad.

Mae'r anafiadau caffaeledig yma i'r ymennydd yn cynnwys anafiadau pen nad ydynt yn arwynebol, strôc, tiwmor yn yr ymennydd, encephalitis, ac amrywiaeth o gyflyrau ychwanegol - y gallent oll achosi oriogrwydd mewn galluedd meddwl neu achosi ei golli'n barhaol. Am y rheswm hwnnw, mewn blynyddoedd diweddar cafwyd

cynnydd yn y nifer o ddirprwyon proffesiynol sydd â chleientiaid gydag anafiadau i'r ymennydd. Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gweithio ochr yn ochr â'r elusen anaf i'r ymennydd, Headway, i hybu dealltwriaeth o holl agweddau anafiadau i'r ymennydd ac i ddarparu gwybodaeth, cefnogaeth a gwasanaethau i oroeswyr, eu teuluoedd a'u gofaluwr.

Mae Headway a Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cynnal cynhadledd yn benodol i ddirprwyon proffesiynol sy'n gweithio gyda goroeswyr anaf i'r ymennydd, ar ddydd Iau Hydref



12 yn yr Amgueddfa Gwyddoniaeth a Diwydiant ym Manceinion.

Bydd rhaglen y gynhadledd yn cynnwys cyngor a gwybodaeth am yr heriau sy'n gysylltiedig â dirprwyaeth goroeswyr anaf i'r ymennydd.

I gael rhagor o wybodaeth a manylion ynglŷn â sut i fynd i'r digwyddiad, ewch i [headway.org.uk/about-brain-injury/professionals/events-and-conferences/headway-deputy-conference/](https://www.headway.org.uk/about-brain-injury/professionals/events-and-conferences/headway-deputy-conference/)

Y 10 camgymeriad a wneir amlaf wrth gwblhau adroddiad dirprwy



Mae mwy o ddirprwyon nag erioed o'r blaen yn rhoi adroddiad, yn dilyn ein penderfyniad i ofyn i bob dirprwy gwblhau adroddiad.

I wneud y broses adrodd yn symlach, aethom ati i gyflwyno ffurflenni adrodd newydd yn 2016 - penderfyniadau ariannol ac eiddo (OPG102), ffurflen fer penderfyniadau ariannol ac eiddo OPG103) a phenderfyniadau iechyd a lles (OPG104).

Mae'r ffurflenni newydd yn fwy eglur ac rydym wedi gwella'r arweiniad i'w gwneud nhw'n haws i'w llenwi.

Ond, gwyddom fod hyn i gyd yn newydd i rai felly rydym wedi drafftio rhestr o gamgymeriadau cyffredin a wneir wrth gwblhau adroddiad a sut i'w hosgoi nhw.

1. Defnyddio'r cyfnod adrodd anghywir

Gwnewch yn siŵr bod eich adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod adrodd cywir. Gallai adroddiadau sydd â'r dyddiadau anghywir ar dudalen 1 gael eu dychwelyd.

Ddylech chi ond cofnodi trafodion a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod. Er enghraifft, os ydych wedi ysgrifennu siec sydd heb glirio eto, rhowch wybod amdano yn y cyfnod nesaf ar ôl i'r arian adael y cyfrif.

2. Gadael adrannau'n wag (cwestiynau 2 - 5)

Mae rhai dirprwyon yn gadael adrannau'n wag, yn arbennig gwestiynau 2 - 5. Mae'r cwestiynau yma'n ymdrin â'ch penderfyniadau: a ydych wedi cynnwys eich cleient yn y broses o wneud penderfyniad ac i ba raddau, pobl rydych wedi ymgynghori â nhw, y cysylltiad sydd gan y cleient gyda chi ac eraill a sut y telir am eu gofal. Mae'n rhaid i chi gwblhau pob adran. Yn arbennig, os nad oes gan y cleient y galluedd i gymryd rhan mewn penderfyniadau, neu os nad oedd angen i chi wneud unrhyw benderfyniadau neu ymgynghori â rhywun, mae angen i chi nodi hyn ac esbonio pam.

3. Defnyddio ffigurau misol neu wythnosol

Yn yr adrannau arian i mewn ac arian allan (tudalennau 7 a 9) yn yr OPG102, mae angen i chi ddefnyddio'r ffigurau cyfan ar gyfer y cyfnod adrodd. Mae rhai dirprwyon yn gwneud y camgymeriad o ddefnyddio ffigurau misol neu wythnosol.

4. Anghofio esbonio'r eitemau sydd wedi'u marcio gyda'r eicon gwybodaeth

Yn yr OPG102, os byddwch yn cwblhau blychau ar dudalennau 7 a 9 sydd wedi'u marcio gyda'r eicon gwybodaeth, bydd angen i chi esbonio'r eitemau yma'n llawn ar dudalennau 8, 10 ac 11.

5. Adrodd am fwy nag un cyfrif banc ar yr un dudalen.

Yn yr OPG 102, mae rhai dirprwyon yn ceisio cyfuno ffigurau o fwy nag un cyfrif banc i adran 5. Ond, rydym yn gofyn eich bod yn defnyddio adran 5 ar gyfer y cyfrif banc cyntaf ac yn

rhoi manylion y cyfrifon eraill ar y taflenni ychwanegol ar gefn y ffurflen.

6. Cofnodi eitemau ddwy waith

Yn yr OPG102 ar dudalenau 7 - 9, sicrhewch nad ydych yn cofnodi'r un eitem ddwy waith. Er enghraifft, os byddwch yn tynnu arian allan i'w wario ar drip diwrnod i'r cleient, nodwch hwn naill ai o dan 'tripiau diwrnod' neu o dan 'arian parod yr ydych wedi'i dynnu allan' ond nid y ddau.

7. Cofnodi rhoddion yn anghywir

Os byddwch yn gwneud unrhyw roddion, cofnodwch bob un ar dudalen 8 yr OPG103 neu dudalen 10 yr OPG102, gan gynnwys y derbyniwyr a'r achlysur pan wnaethpwyd y rhodd.

8. Anghofio gorffen mantoli tudalen y cyfrif.

Os nad ydych wedi gorffen mantoli adran y cyfrif (tudalen 12) yn OPG102 neu os nad yw'r cyfrif yn mantoli, a hynny heb esboniad da, efallai na fyddwn yn gallu derbyn eich adroddiad a byddwn yn ei ddychwelyd atoch.

9. Adrodd am drosglwyddiadau'n anghywir

Os ydych wedi trosglwyddo arian rhwng cyfrifon y cleient, gwnewch yn siŵr eich bod wedi cyfrif am dynnu'r arian allan o un cyfrif ac am ei osod i mewn i'r llall (OPG102 yn unig).

10. Rhoi adroddiad anghywir am arian mewn llaw

Yr adran arian mewn llaw (tudalen 16) yn yr OPG102 neu'r 'llall' yn OPG103 (tudalen 10) yw'r unig arian parod a ddaliwch fel arian papur a cheiniogau. Peidiwch â chynnwys y gweddill mewn unrhyw gyfrif banc.

Gobeithio y bydd yr awgrymiadau yma'n eich helpu pan fyddwch yn paratoi adroddiad y tro nesaf Ond rydym bob amser wrth law i'ch helpu felly os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'ch rheolwr achos.

Howden UK Group Limited

– cyfeiriad gwefan y cyflenwyr bond sicrhad

Yn ein rhifyn diwethaf o InTouch, roeddem wedi sôn wrthyf am y cyflenwr bondiau sicrhad newydd, Howden UK Group Limited.

I ganfod rhagor am y darparwr newydd yma, ewch i howdendeputybonds.co.uk. Gallwch gael dyfynbris am eich bond a'i dderbyn ar unwaith.

Gallwch gysylltu â nhw ar y ffôn

- tîm cymorth y bond dirprwy ar **0121 516 7690** Dydd Llun i Ddydd Gwener o 9am hyd 5pm.

Mae gan Howden Group Limited fondiau dirprwyon wedi'u rheoli ers Hydref 1 2016 ac maent yn ymwneud â dirprwyon proffesiynol a llyeg fel ei gilydd. Maent yn cynnig cyfraddau cystadleuol ac, am mai nhw yw'r cyflenwr bondiau cymeradwy, mae eu gwasanaeth yn

cael ei fonitro'n dynn.

Os oes gennych fond yn barod gydag unrhyw rai o'r cyflenwyr cymeradwy blaenorol, does dim angen i chi drosglwyddo'r rhain i Howden UK Group Limited heblaw eich bod eisiau gwneud hynny. Bydd y cyflenwyr yma'n dal i anrhydeddu a rheoli'r holl fondiau sy'n bodoli.

Fydddech chi'n adnabod yr arwyddion petai rhywun dan eich gofal yn cael eu camdrin?

Pan fyddwch yn edrych ar ôl materion ariannol cleient neu anwylyn, ond nid ydych yn eu gweld nhw pob dydd, gallai fod yn anodd gwybod a ydynt yn derbyn y gofal cywir.

Mae unrhyw un sydd heb y galluedd i edrych ar ôl eu materion ariannol eu hunain mewn perygl o gael eu camdrin. Am y rheswm yma, mae'n bwysig cadw golwg ar eu lles cyffredinol yn ogystal â'u lles ariannol. Mae camdriniaeth yn gallu bod yn gorfforol, ariannol, geiriol neu seicolegol. Mae'n cynnwys esgeulustod a gall fod yn ganlyniad i weithred neu fethiant i weithredu

Cofiwch fod rhywun agos yn gallu camdrin, rhywun megis aelod o'r teulu neu ofalwr, neu bobl mewn sefyllfa o ymddiriedaeth, gan gynnwys pobl broffesiynol.

Pa arwyddion ddylech chi chwilio amdanynt?

Mae llawer o bethau ym mywyd yr unigolyn sy'n awgymu nad ydynt yn cael eu trin yn dda gan eu gofalwyr. Dyma rai arwyddion o gamdriniaeth corfforol

- mae'r unigolyn yn gwrthod neu'n amharod i dderbyn y gofal y maent ei angen
- dirywiad corfforol, megis wlsrau, dolur gwely neu gael eu gadael mewn dillad gwlyb
- anafiadau bychain, colli pwysau, ennill pwysau neu bod yn ddagreuol



Pan fyddwch yn eu gweld nhw, gofynnwch y cwestiynau dilynol i chi'ch hun:

- Ydyn nhw'n derbyn eu meddgyiniaeth ar bresgripsiwn neu'r gofal meddygol priodol?
- Oes ganddyn nhw ddigon o ddillad ac eiddo personol?
- Ydych chi'n clywed unrhyw iaith amhriodol, gyfrinachol neu baranoid gan y bobl o'u cwmpas?

Os ydynt yn byw yn eu cartref eu hunain, gallai twmpathau o bost sothach, hel eiddo neu lawer iawn o alwadau ffôn neu ebyst fod yn arwydd o gamdriniaeth ariannol.

Rydym yn rhestru rhagor o arwyddion posibl yn ein polisi

diogelu ar ein tudalen GOV. UK ar [gov.uk/government/publications/safeguarding-policy-protecting-vulnerable-adults](https://www.gov.uk/government/publications/safeguarding-policy-protecting-vulnerable-adults)

Pwy arall allai eich helpu i adnabod arwyddion o broblemau?

Os na allwch fod yno, efallai y bydd cymdogion neu bobl erall sydd yno'n rheolaidd yn sylwi ar bethau anarferol yn digwydd.

Dywedwch wrthynt eich bod yn gweithredu ar ran yr unigolyn ac, os oes ganddynt unrhyw bryderon, gallent roi gwybod i chi.

Dirprwyon proffesiynol

Dewch i adnabod yr unigolyn dan eich gofal, os nad ydych yn

eu nabod yn barod. Os ydych yn adnabod rhywun yn dda, mae newidiadau yn eu hymddygiad yn arwydd pwysig fod rhywbeth o'i le.

Os ydych yn rhan o gwmni cyfreithiol mawr neu awdurdod lleol gyda llawer o achosion, efallai na fydd hyn yn bosibl. Mewn achos felly dylech:

- ystyried cyflogi 'cymwynaswr' os oes gan y cleient yr arian i wneud hynny
- gwnewch yn siŵr fod pawb yn eich cwmni sydd â chysylltiad â'r cleient yn gwybod sut i wneud cyfeiriadau diogelu
- dewch i wybod am y datblygiadau diweddaraf mewn gofal cymdeithasol yn cynnwys y gyfraith achosion sy'n effeithio ar y bregus yn rhan o'ch datblygiad proffesiynol parhaus

Mae'r disgwyliadau yma wedi eu nodi yn ein safonau dirprwyon proffesiynol y gallwch eu gweld ar ein gwefan ar [gov.uk/government/publications/office-of-the-public-guardian-deputy-standards](https://www.gov.uk/government/publications/office-of-the-public-guardian-deputy-standards)

Sut mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn diogelu pobl dan risg?

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau sy'n cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol oedolion a'r heddlu. Rydym yn cymryd rhan mewn archwiliadau ar y cyd i achosion posibl o gamdriniaeth.

Os byddwch yn rhannu eich pryder gyda ni am ddirprwy neu dwrnai sy'n gweithredu o dan atwrneiaeth arhosol (LPA), byddwn yn gwneud ymchwiliad. Fel sydd wedi'i nodi yn y Ddeddf Galluedd Meddwl 2005, ni allwn ond ymchwilio pobl sy'n gweithredu o dan atwrneiaeth arhosol (LPA), atwrneiaeth barhaus (EPA) a dirprwyon sydd wedi'u penodi gan y llys.

Rydym yn cymryd pob cyhuddiad o gamdriniaeth o ddifrif ac yn gwneud asesiad risg o bob pryder i'n helpu i benderfynu a ddylem wneud ymchwiliad llawn. Os na allwn weithredu, byddwn yn cyfeirio'r mater i'r asiantaeth briodol megis yr heddlu, y gwasanaethau plant neu'r gwasanaethau cymdeithasol oedolion.

I wneud cyfeiriad diogelu

Ebost: opg.safeguardingunit@publicguardian.gsi.gov.uk
Ffôn **0115 934 2777**
Ffôn testun: **0115 934 2778**

Mae ein uned diogelu'n agored o Ddydd Llun i Ddydd Gwener, rhwng 9am a 5pm, a 10am hyd 5pm ar ddydd Mercher.

Gweithredoedd enghreifftiol - esiampl o orchymyn llys dilys ar GOV.UK

Weithiau, wrth ddefnyddio eich gorchymyn llys i wneud eich dyletswyddau fel dirprwy, gallwch wynebu problemau os nad yw pobl wedi gweld un o'r blaen.

I helpu gyda'r sefyllfa yma, rydym wedi cyhoeddi esiampl o orchymyn llys dilys ar ein tudalennau GOV.UK sy'n gallu helpu i dawelu meddwl pobl bod y ddogfen a ddangoswch

iddynt yn ddilys. I weld yr esiampl o orchymyn llys, ewch i [gov.uk/government/publications/deputy-court-order-valid-example](https://www.gov.uk/government/publications/deputy-court-order-valid-example)

Mae'r dudalen yn esbonio pa fath o benderfyniadau mae'r gorchymyn yn ymwneud â nhw a sut y dylai edrych. Mae hefyd yn esbonio eich bod yn gallu chwilio

cofrestr Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar [gov.uk/find-someones-attorney-or-deputy](https://www.gov.uk/find-someones-attorney-or-deputy) i gadarnhau bod gan rywun ddirprwy'n gweithio ar eu rhan. Yn ogystal, mae'n pwyntio at ein tudalennau sy'n esbonio'r grym sydd gan rywun o fod yn ddirprwy.

Gwranddo ar adborth gan ein dirprwyon

Yn Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella ein gwasanaethau i chi. Dyna pam yr aethom ati y llynedd i newid ein proses arolygu dirprwyaeth o'r papur i'r electronig.

Mae ein proses newydd yn gadael i ni gasglu adborth mwy diweddar gennych am fod copiâu electronig yn cael eu hanfon allan ar yr ebost bob mis. Rydym yn dal i allu cynnig copiâu papur o'r arolwg i chi, os byddai'n well gennych hynny.

Rydym yn anfon arolygon at ddirprwyon proffesiynol ac awdurdod cyhoeddus bob chwe mis. I ddirprwyon lleig, rydym yn dewis mwy na 1000 o ddirprwyon ar hap i anfon arolygon atynt bob mis.

Ar gyfer y cyfnod Ionawr - Mawrth 2017, gwelsom fod 78% o'n dirprwion yn fodlon gyda'n gwasanaethau. Ond dydy hynny ddim yn golygu bod y 22% arall yn anfodlon gyda'n gwasanaethau, oherwydd gall ein dirprwyon ateb y cwestiwn yma gyda'r ateb 'ddim yn fodlon nac yn anfodlon'.

Mae eich sylwadau'n werthfawr i ni, oherwydd maent yn ein helpu i:

- ganfod sut brofiad yw bod yn ddirprwy
- ddysgu mwy amdanoch chi
- ganfod materion nad ydym wedi dod ar eu traws o'r blaen

Mae rhai o'r sylwadau yr ydym wedi eu derbyn gan ein dirprwyon yn ymwneud â:

- gwerth am arian
- yr hyn mae ffi'r dirprwy'n talu amdano
- faint o gefnogaeth a gynigir gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
- yr amser a gymerir i ateb y ffôn pan for dirprwy'n ein galw ni

Mae eich adborth yn ein helpu i wneud newidiadau i'n prosesau hefyd. Efallai ein bod yn drwgdybio nad ydy rhywbeth yn gweithio'n dda, ond os byddwch chi'n rhoi gwybod i ni, mae gennym dystiolaeth y gallwn ei defnyddio i newid pethau i chi. Pan fyddwn yn derbyn adborth positif, rydym yn dweud wrth ein busnes cyfan amdano.

Esiampl o fater yr ydym wedi ei ddatrys gan ddefnyddio eich adborth yw'r ffaith nad oedd ein dirprwyon yn gallu cael ateb gennym ar y ffôn yn ystod amseroedd prysur. I ddatrys hyn buom yn siarad gyda'n timau, yn canfod bylchau yn ein proses ac yn rhoi mwy o'n pobl ar y ffonau yn ystod yr amseroedd prysur.

Rydym wrthi'n monitro ein harolygon yn barhaus i weld sut y gallwn eu haddasu er mwyn casglu cymaint o adborth ag y gallwn am yr hyn sy'n bwysig i chi fel dirprwy.

Os hoffech roi eich adborth i ni, siarad yn fwy manwl am eich profiadau, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau neu awgrymiadau am ein gwaith ymchwl, ebostiwch ni ar customerrelations@publicguardian.gsi.gov.uk



Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a'r sector ariannol - yn cydweithio i'ch helpu

Mae ein tîm rheoli perthynas â'r cwsmer yn gweithio'n agos gyda'r sector ariannol, o'r rheolyddion i lawr i fanciau a chymdeithasau adeiladu uniogol, er mwyn helpu i wella pethau i'n cwsmeriaid. Rydych wedi dweud wrthym yn eich adborth eich bod weithiau'n cael problemau yn delio gyda sefydliadau ariannol pan fyddwch yn defnyddio eich gorchmynion llys dirprwyaeth. Yma rydym yn esbonio rhywfaint o'r gwaith yr ydym wedi bod yn ei wneud i wneud eich bywyd yn haws.

Banciau a chymdeithasau adeiladu'r stryd fawr

Yn rhifyn gwanwyn 2015 o InTouch roeddem yn sôn wrthyfych am ein pecyn e-ddysgu newydd i staff rheng flaen mewn banciau a chymdeithasau adeiladu'r stryd fawr. Mae hyn yn addysgu staff rheng flaen am y ffordd mae dirprwyaethau ac atwrneiaethau (PoAs) yn gweithio ac, yn bwysig iawn, sut i adnabod y dogfennau.

Gwneir yr hyfforddiant yn y mwyafrif o fanciau a chymdeithasau adeiladu erbyn hyn. Rydym yn derbyn adborth rhagorol am y ffordd y mae'n cael ei ddefnyddio i hyfforddi staff rheng flaen. Rydym yn gobeithio y bydd dirprwyon, o ganlyniad, yn derbyn gwasanaeth o ansawdd uwch wrth ddefnyddio gwasanaethau bancio.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda holl brif fanciau a chymdeithasau adeiladu'r stryd fawr i'w hannog i bostio dolen at yr ap atwrneiaeth arhosol (LPA) digidol ar eu gwefannau eu hunain. Y gobaith yw y bydd hyn yn rhoi'r cyfle i lawer o

gwsmeriaid bancio greu atwrneiaeth arhosol iddynt eu hunain, cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

Rheolyd

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol (FOS) a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i gael gwell canlyniadau i'n cwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant i'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol (FOS) i roi'r wybodaeth iddynt y maent ei hangen i gyflafareddu mewn cwynion cymhleth sy'n ymwneud â dirprwyaeth neu atwrneiaeth arhosol.

Rydym wedi datblygu perthynas newydd gyda'r Sefydliad Polisi Arian ac Iechyd Meddwl. Maent yn ein helpu i ddeall y problemau y mae dirprwyon a thwrneiod yn eu cael gyda defnyddio atwrneiaeth arhosol neu ddirprwyaeth. Byddwn yn ystyried yr adborth a dderbyniwn yn ofalus. Bydd yn cael ei ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau am bolisiau yn y dyfodol i sicrhau bod atwrneiaethau arhosol a gorchmynion llys dirprwyol yn gyfatebol gyda thechnoleg a pholisiau banciau a chymdeithasau adeiladu.

Mae eich adborth yn hynod o bwysig i ni a byddwn bob amser yn ei ddefnyddio i dynnu sylw at feysydd sydd angen eu gwella i gyrrff diwydiannol megis Cymdeithas Prydeinig y Bancwyr (BBA) a Chymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu (BSA). Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod i ni os byddwch yn wynebu unrhyw anawsterau. Mae'r erthygl 'Listening

to feedback from our deputies' yn y cylchgrawn yma'n mynd i fwy o fanylder am y ffordd yr ymatebwn i'ch sylwadau.

Beth i'w wneud os cewch broblemau'n delio gyda banc neu gymdeithas adeiladu

- Rhowch gyfle i'r busnes yr ydych yn anhapus ag o gywiro'r sefyllfa. Mae ganddynt hyd at wyth wythnos i roi ateb i chi.
- Os nad yw'r busnes yn ateb o fewn wyth wythnos neu os ydych yn anhapus gyda'r hyn a ddywedant, gallwch gysylltu â'r FOS. Gallwch wneud hyn ar y ffôn ar **0300 123 9123** neu **0800 023 4567**. Mae'r llinellau ar agor o 8am hyd 8pm o Ddydd Llun i Ddydd Gwener ac o 9am hyd 1pm ar Ddydd Sadwrn. Neu gallwch ebostio **complaint.info@financial-ombudsman.org.uk** neu fynd i'w gwefan **financial-ombudsman.org.uk**
- Gadewch i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wybod am unrhyw esiamplau o wasanaeth gwael ac fe wnawn yn siŵr ein bod yn tynnu sylw'r awdurdodau a'r cwmnïau perthnasol at y rhain. Ni allwn ymyrryd yn uniongyrchol mewn dadl rhwng banc a'i gwsmeriaid, ond gallwn wneud banciau'n ymwybodol o broblemau cyffredin yr ydych efallai'n eu cael. Ffoniwch ein canolfan gysylltu ar **0300 456 0300** neu ebostiwch **customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk**

Gwella gwasanaethau Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i siaradwyr Cymraeg

Oeddech chi'n gwybod eich bod yn gallu cyfathrebu gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn Gymraeg?

Rydym yn darparu ein gwasanaethau yng Nghymru a Lloegr, sy'n golygu bod gennym gyfrifoldeb i ddarparu gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'n gwaith diogelu.

Mae ein tîm o olygyddion wedi cynyddu'n raddol faint yr arweiniad yn y Gymraeg sydd ar gael ar GOV.UK, a bob tro y bydd arweiniad newydd neu ffurflen newydd yn cael eu cyhoeddi, maent yn eu cyfieithu i'r Gymraeg.

I'w gwneud hi'n haws i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio ein tudalen GOV.UK, mae'r tîm wedi adeiladu tudalen 'canolfan' Gymraeg - sy'n cysylltu â'n holl ddogfennau Cymraeg ar GOV.UK.

Yn sylfaenol, mae hon yn gweithredu fel mynegai ar gyfer yr holl wybodaeth a ddarparwn yn y Gymraeg. Mae ein golygyddion yn ychwanegu mwy a mwy o ddogfennau a ffurflenni i'r ganolfan drwy'r amser, a gallwch gael hyd i'r canlynol yn barod:

- gwybodaeth gorfforaethol megis ein cyfrifon a'n hadroddiadau blynyddol, ein strategaeth ddigidol, ein hadolygiad o oruchwyliaeth dirprwyon, adroddiad y Gwarcheidwad Cyhoeddus i'r Senedd a'r Ddeddf Galluedd Meddwl (2005)

- ffurflenni ac arweiniad i ddirprwyon yn cynnwys yr 'Adroddiad dirprwyon', 'Ffioedd dirprwyon: peidio talu neu esemptiad', 'Arweiniad i ddirprwyon: sut i wneud eich dyletswyddau', 'Arweiniad am ymweliadau sicrhau a safonau dirprwyon' ac esiampl o orchymyn llys dirprwy dilys

- Cylchgrawn InTouch

Cyn hir, byddwch yn gallu cael hyd i'r arweiniad dilynol ar y ganolfan:

- mae ein polisi diogelu, ein cyfres o nodiadau ymarfer, yn cynnwys 'Bondiau diogelwch', 'Adroddiadau terfynol dirprwyon', 'Cyfrifoldebau dirprwyaeth awdurdod cyhoeddus', a 'Chostau sefydlog i gyfreithwyr ac awdurdodau cyhoeddus'

Daliwch ymlaen i ymweld â'r ganolfan wrth i ni ychwanegu rhagor o wybodaeth yn y Gymraeg ar: gov.uk/guidance/ffurflenni-a-chanllawiau-ar-gyfer-atwrneiaeth-a-dirprwyon Wrth gwrs, rydym hefyd yn cynnig tudalennau am atwrneiaeth arhosol (LPA) ac atwrneiaeth barhaus (EPA) ar GOV.UK yn y Gymraeg.

Yn ogystal â chynnig ein gwybodaeth a'n gwasanaethau yn y Gymraeg, rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â phobl sy'n gallu dweud rhagor wrthym am anghenion siaradwyr Cymraeg. Mae Alan Eccles, Gwarcheidwad Cyhoeddus, yn cyfarfodydd â'r Comisiynydd Pobl Hŷn i Gymru bob chwe mis sy'n helpu Swyddfa'r

Gwarcheidwad Cyhoeddus i ddeall yn well y problemau sy'n wynebu pobl hŷn yng Nghymru, yn arbenng ynghylch cadw a chynnal hawliau dynol. Yn ddiweddar, bu Alan a chynrychiolwyr o'n tîm polisi'n ymweld â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru i greu perthynas waith newydd.

Mae ADSS Cymru'n hybu lles, diogelwch, gofal a chefnogaeth i oedolion a phlant bregus yng Nghymru. Maent hefyd yn rhoi profiad ac arbenigedd, yn nhermau polisi ac arferion proffesiynol, yn ymwneud â phob agwedd o'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae ADSS Cymru'n adnodd gwybodaeth pwysig yn y sector gwasanaethau cymdeithasol, i wneud penderfyniadau strategol ac i ddangos arferion gorau.

Mae'r cyfarfodydd yma'n mynd i fod yn ddigwyddiad rhreolaidd, felly byddwn yn adeiladu partneriaeth waith lawer agosach ar gyfer y dyfodol. Os byddwch angen cymorth i wneud eich dyletswyddau fel dirprwy yng Nghymru, cysylltwch â opgpolicy@publicguardian.gsi.gov.uk

Cysylltiadau defnyddiol

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG)

Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gyfrifol am gofrestru atwrniaethau parhaus ac arhosol, fel bod modd i bobl ddewis pwy y maent eisiau eu defnyddio i wneud penderfyniadau ar eu rhan os nad oes ganddyn nhw'r gallu mwyach. Rydym yn cynnal y gofrestr gyhoeddus o ddirprwyon a phobl sydd wedi derbyn atwrniaethau parhaus ac arhosol. Rydym hefyd yn goruchwyllo ac yn cefnogi dirprwyon a benodir gan y Llys Gwarchod ac yn archwilio adroddiadau o gamdriniaeth a wnaed gan ddirprwyon neu dwrneiod cofrestredig.

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus,
PO Box 16185, Birmingham,
B2 2WH

www.gov.uk/opg

Canolfan gyswilt Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Ffôn: 0300 456 0300

9am - 5pm – Dydd Llun i Ddydd Gwener
10am - 5pm – Dydd Mercher

Ni chodir costau uwch am alwadau na'r gyfradd alw genedlaethol

Ebost: customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk

Os oes gennych anawsterau lleferydd neu glyw ac mae gennych ffôn testun gallwch ddefnyddio'r ffôn testun ar 0115 934 2778

Ffacs: 0870 739 5780

I lawrlwytho ffurflenni dirprwyaeth neu arweiniad ewch i www.gov.uk/guidance/ffurflenni-a-chanllawiau-ar-gyfer-atwrniaeth-a-dirprwyon

Tîm ymweliadau Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Ebost: opgvisitorsoffice@publicguardian.gsi.gov.uk

Y Llys Gwarchod

Mae'r Llys Gwarchod (CoP) yn llys arbenigol ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â phobl sy'n brin o'r galluedd i wneud penderfyniadau penodol. Mae'r llys yn gwneud penderfyniadau ac yn penodi dirprwyon i wneud penderfyniadau sydd o'r budd mwyaf i'r rheiny sydd heb y galluedd i wneud hynny.

Y Llys Gwarchod,
PO Box 70185,
First Avenue House,
42 - 49 High Holborn,
London,
WC1A 9JA

Ffôn: 0300 456 4600

I lawrlwytho ffurflenni'r Llys Gwarchod ewch i dudalen Ffurflenni a Thafenni Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM <http://hmctscourtfinder.justice.gov.uk/HMCTS/FormFinder.do>

I weld gwybodaeth am benderfyniadau'r Llys Gwarchod, ewch i www.bailii.org/ew/cases/EWHC/COP

Cysylltwch ag InTouch

Office of the Public Guardian
PO Box 16185, Birmingham, B2 2WH

intouch@publicguardian.gsi.gov.uk

Gweld pob canllaw, cyhoeddiadau a ffurflenni Cymraeg Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus:
<https://www.gov.uk/guidance/ffurflenni-a-chanllawiau-ar-gyfer-atwrneiaeth-a-dirprwyon>